# Ymchwiliad i gŵyn gan Mr C yn erbyn Cyngor Dinas Casnewydd

Adroddiad gan
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Achos: 201700724

**Cynnwys** **Tudalen**


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 1 |
| Crynodeb | 2 |
| Y Gŵyn | 4 |
| Yr Ymchwiliad | 4 |
| Deddfwriaeth Berthnasol | 4 |
| Ymchwiliad Blaenorol yr Ombwdsmon | 5 |
| Y Digwyddiadau Cefndir | 5 |
| Tystiolaeth Ms C | 13 |
| Tystiolaeth y Cyngor | 13 |
| Cyngor Proffesiynol | 14 |
| Dadansoddiad a Chasgliadau | 16 |
| Argymhellion | 19 |

## Cyflwyniad

Cyhoeddir yr adroddiad hwn o dan adran 16 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005.

Yn unol â darpariaethau'r Ddeddf, mae'r adroddiad yn ddienw er mwyn sicrhau, hyd y bo modd, bod unrhyw fanylion a allai olygu bod modd adnabod unigolion wedi cael eu newid neu eu hapgor.  Mae'r adroddiad felly'n cyfeirio at yr achwynydd fel Ms C.

## Crynodeb

Cwynodd Ms C nad oedd ei pherthynas, Ms D, sydd ag anawsterau dysgu, wedi derbyn gofal digonol gan Gyngor Dinas Casnewydd (“Y Cyngor”) o Fedi 2013, a bod hyn wedi’i gadael heb gefnogaeth. Yn benodol, ni asesodd ei gallu i orchwylio ei materion cyllidol na threfnu i apwyntai wneud hynny.

Canfu’r Ombwdsmon na gynhaliodd y Cyngor asesiad galluedd am gyfnod o bron bedair blynedd, er iddynt adnabod ar bum achlysur wahanol fod Ms D yn fregus a ddim yn deall cyfrifiadau cyllid sylfaenol. Gadawodd y Cyngor i Ms D ddelio â’i materion cyllidol ei hun ac mewn perygl o ecsbloetiaeth. Ymhellach i hyn, canfu’r Ombwdsmon na atgyfeiriodd y Cyngor fesurau diogelu nac ymchwilio’r pryderon a godwyd yn ddigon difrifol pan wnaed yn ymwybodol y gallai Ms D fod wedi’i hecsbloetio’n gyllidol. Fodd bynnag, canfu’r Ombwdsmon bod y gefnogaeth gyffredin a chynigiodd y Cyngor i Ms D yn rhesymol.

Dywedodd yr Ombwdsmon y dylai’r Cyngor fod wedi diogelu Ms D yn gyllidol a'i fod yn anghyfiawnder sylweddol na chafodd. Derbyniodd y Cyngor gasgliadau’r adroddiad hwn a chydnabod eu rôl ym methiannau’r achos.

Cytunodd y Cyngor i gymryd y camau canlynol:

O fewn un mis:

a) Ysgrifennu llythyrau priodol yn ymddiheuro am y methiannau a adnabyddir yn yr adroddiad hwn.

b) Gwneud taliad i Ms D o swm cytunedig am y methiant o beidio asesu’n ddigonol ei hangen am fesurau diogelu cyllidol rhwng Medi 2013 ac Ebrill 2017.

c) Gwneud taliad o £500 i Ms C i gydnabod y gofid a achosodd gan ei fethiant fel yr amlinellir yn (b) ac o anwybyddu ei chyfatebiaeth.

O fewn tri mis:

ch) Sicrhau bod trefniadau ar waith fel bod ystyriaeth yn cael ei roi i reoli cyllid yn ystod ei adolygiad blynyddol o achosion, a phenderfynu sut y byddant yn adolygu pryderon a dderbyniant mewn perthynas â materion cyllidol a gallu.

d) Trafod cynnwys yr adroddiad hwn gyda'r Tîm Anabledd Dysgu Oedolion Cymunedol i adnabod meysydd dysgu.

dd) Sicrhau bod trefniadau ar waith er mwyn atgoffa staff priodol o'r angen i gymryd nodiadau cywir a dangos y rhesymeg ar gyfer penderfyniadau mewn perthynas â gallu.

O fewn chwe mis:

e) Dangos bod holl Weithwyr Cymdeithasol perthnasol wedi derbyn yn ddiweddar neu am dderbyn hyfforddiant gloywi mewn perthynas â'r Ddeddf Gallu Meddylion a sut i ymgymryd ag a chofnodi asesiadau galluedd.

## Y Gŵyn

1. Cwynodd Ms C y methodd Cyngor Dinas Casnewydd o Fedi 2013, i ddarparu Ms D, aelod agor o'r teulu sydd ag anawsterau dysgu, gyda gofal digonol a chafodd ei gadael heb gefnogaeth. Yn benodol, ni asesodd ei gallu i orchwylio ei materion cyllidol na threfnu i 'apwyntai' [1]wneud hynny.

## Yr Ymchwiliad

2. Cefais sylwadau a chopïau o ddogfennau perthnasol gan y Cyngor ac ystyriais y rheini ar y cyd â'r dystiolaeth a ddarparodd Ms C. Cefais gyngor gan un o fy Nghynghorwyr Proffesiynol, Paula Hendry ("Y Cynghorwr"). Mae hi'n Weithiwr Cymdeithasol cofrestredig gyda phrofiad helaeth mewn gallu meddyliol/gwaith iechyd meddwl. Rwy'n fodlon bod ganddi gymwysterau a phrofiadau priodol i fy narparu â chyngor ar y materion sy'n destun i'r gŵyn hon. Rwyf wedi cymryd ei chyngor, a'u crynhoi isod, wrth ddod i'm casgliadau.

3. Nid wyf wedi cynnwys pob manylyn a ymchwiliwyd iddo yn yr adroddiad hwn ond rwy'n fodlon nad oes unrhyw beth arwyddocaol wedi'i esgeuluso.

4. Cafodd Ms C a'r Cyngor ill dau gyfle i weld a chyflwyno sylwadau ar fersiwn drafft o'r adroddiad hwn cyn cyhoeddi'r fersiwn terfynol.

## Ddeddfwriaeth Berthnasol

5. Cymerais i ystyriaeth y ddeddfwriaeth a'r canllawiau canlynol:

- Deddf Galluedd Meddyliol 2005 ("DGM")
- Cod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 ("Cod Ymarfer")
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014

[1] Apwyntai yw rhywyn a benodwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i helpu rheoli budd-daliadau person os nad oes gan y person hwnnw'r gallu i'w rheoli eu hunain.

6. Mae'r DGM wedi'i gynllunio i amddiffyn a grymuso pobl a allai fod heb y galluedd meddyliol i wneud penderfyniadau eu hunain ynghylch eu gofal a'u triniaeth. Mae'r DGM hefyd yn ymdrin â phenderfyniadau o ddydd i ddydd megis beth i'w brynu ar gyfer y siop wythnosol.

7. Mae'r Cod Ymarfer yn darparu canllawiau i unrhyw un sydd yn gweithio ag oedolion a allai fod heb y gallu i wneud penderfyniadau penodol. Mae'n disgrifio eu dyletswyddau wrth weithredu neu gan wneud penderfyniadau ar ran unigolion sydd heb y gallu i wneud y penderfyniadau hyn eu hunain.

## Ymchwiliad Blaenorol yr Ombwdsmon

8. Yn ddiweddar, ymchwiliodd fy swyddfa gŵyn tebyg am Gyngor Dinas Casnewydd.[2] Nododd fy ymchwil fethiant gan y Cyngor i gynnal asesiad galluedd mewn perthynas ag oedolyn bregus a chamdriniaeth gyllidol drwgdybiedig. Cadarnhawyd y gŵyn.

## Y Digwyddiadau Cefndir

9. Mae Ms D yn oedolyn ag anawsterau dysgu ysgafn a hanes o faterion iechyd meddwl. Mae'n byw mewn llety cysgodol ac yn annibynnol mewn nifer o weithgareddau; fodd bynnag, mae angen cefnogaeth â chyllid a gohebiaeth. Mae Ms C yn darparu cefnogaeth os oes angen.

**2011**

10. Roedd cynllun gofal ar waith a nodwyd fod angen cefnogaeth ar Ms D i dalu ei biliau, rheoli gohebiaeth a gwneud pryniadau. Roedd hyn i'w ddarparu gan wasanaeth cynorthwyydd teulu. Nodwyd fod Ms D yn hysbys yn y gorffennol i ddwyn, mynd i ddyled drwy beidio â thalu ei biliau ac i fynd yn gyfaill â gwrywod a cham-fanteisiodd ei bregusrwydd. Apwyntai Ms D i'w chynorthwyo â rheoli ei chyllid oedd Mr K, cysylltwr proffesiynol.

[2] Rhif Cyferinod yr achos 201607368

**2012**

11. Rhoddwyd y gwasanaeth cynorthwyydd teulu ar waith a'i adolygu gan y Tîm Anabledd Dysgu Oedolion Cymunedol ("CALDT") ym Mawrth, pan nodwyd bod yn gweithio'n dda. Rhoddwyd y gorau i fewnbwn gwaith cymdeithasol. Parhaodd Mr K i ddelio â chyllid Ms D ac nid oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu nad oedd anghenion Ms D yn cael eu ddiwallu gan y cyfuniad o gymorth deuluol, y gwasanaeth cynorthwyydd teulu a rôl Mr K fel apwyntai.

**2013**

12. Ym Medi, cysylltodd Mr K â'r CALDT a'u hysbysu y byddai nawr yn rhoi gorau â'i rôl fel apwyntai. Gofynnodd CALDT am wybodaeth bellach ganddo ynghylch cyllid Ms D. Cadarnhaodd CALDT y byddai'r mater yn cael ei gyfeirio at dîm apwyntai'r Cyngor. Nid oes cofnod Mr K yn ymateb gyda'r wybodaeth yn unol â'r cais. Fodd bynnag, ar 3 Hydref, galwodd y CALDT Mr K a'i hysbysu bod rhestr aros ar gyfer penodi apwyntai.

13. Ar 14 Hydref, cynhaliodd Weithiwr Cymdeithasol ("y Gweithiwr Cymdeithasol Cyntaf") adolygiad cynllun gofal. Nododd bod gweithiwr cynorthwyydd teulu Ms D yn ymddeol yn Rhagfyr ac y byddai angen dod o hyd i weithiwr newydd. Nododd hefyd na fyddai Ms D yn gallu rheoli taliadau uniongyrchol[3] ar gyfer y gwasanaeth hwn gan y byddai'n cael trafferth â'r broses. Dywedodd yr adolygiad yn anghywir mai Mam Ms D oedd ei apwyntai nawr. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gofnod ffurfiol o hyn. Pan ofynnwyd i Ms D am y budd-daliadau a dderbynodd, nodwyd nad oedd yn gwybod unrhyw beth amdanynt. Dywedodd Ms D ei bod bellach yn rheoli ei biliau ei hun.

14. Cyfeiriodd CALDT achos Ms D i'r Tîm Apwyntai ar 26 Tachwedd. Ysgrifennodd y Gweithiwr Cymdeithasol Cyntaf mewn llythyr i'r swyddfa budd-dal lleol, nad oedd gan Ms D y "gallu i reoli ei chyllid" a bod ei chynilion wedi gostwng swm sylweddol.

[3] Taliadau uniongyrchol yw taliadau ag arian yn lle gwasanaethau gofal; gan ganiatâu i'r person sydd â'r hawl i wasanaethau gofal cymunedol drefnu eu gwasanaethau ei hunn

15. Ar 28 Tachwedd, ymatebodd y Tîm Apwyntai i'r atgyfeiriad drwy ddangos bod y ffurflen yn anghyflawn ac nad oedd asesiad galluedd ynghlwm. Heb hyn, nododd na fyddai achos Ms D yn cael sylw.

16. Yn Rhagfyr, dyrannwyd gweithiwr cymorth newydd o wasanaeth gofal newydd i Ms D.

**2014**

17. Ym Mai, hysbysodd Ms D y CALDT nad oedd ei gweithiwr cymorth wedi troi i fyny dros y pythefnos diwethaf. Cysylltodd CALDT y cwmni cymorth a chadarnhasant fod Ms D wedi canslo'r gefnogaeth a ddarparasant. O amgylch y cyfnod hwn, gadawodd y Gweithiwr Cymdeithasol Cyntaf a daeth achos Ms D i'w reoli drwy'r system ddyletswydd[4].

18. Ym Medi, dywedodd Ms D wrth CALDT fod Ms C wedi cymryd miloedd o bunnoedd oddi wrthi ac na fyddai'n ei ddychwelyd.

**2015**

19. Ar 8 Ionawr, dywedodd cymydog ar ran Ms D wrth y CALDT bod Ms D wedi egluro iddynt ei bod hen alaru â'r gwrywod lleol yn gofyn iddi am arian. Cysylltwyd â staff cymorth a gadarnhaodd nad oedd Ms D wedi crybwyll unrhyw honiadau am hyn. Siaradodd CALDT â Ms D. Cadarnhaodd fod gŵr lleol wedi bod yn gofyn iddi am arian, ond dywedodd ei bod wedi gwrthod. Gwnaeth Ms D honiadau pellach, am wrywod lleol yn gofyn iddi am arian, i CALDT ar 16 a 23 Ionawr. Nid oes cofnod o gamau pellach yn cael eu cymryd gan CALDT yn dilyn yr honiadau hyn.

20. Ar 7 Chwefror, ysgrifennodd Ms C i'r CALDT, gan goelio mai'r Cyngor oedd apwyntai Ms D, i'w hysbysu bod cynilion Ms D nawr yn sylweddol îs. Nid oes cofnod o'r CALDT yn ymateb i'r llythyr hwn.

[4] Tîm rheng flaen yn gweithredu fel pwynt unigol o gyswllt am ymholiadau, pryderon, atgyfeiriadau a chyngor.

21. Ar 28 Mawrth, ysgrifennodd Mr K lythyr yn cwyno i'r Cyngor ar ran Ms D ynghylch ei budd-daliadau'n terfynnu, nad oedd hi'n derbyn unrhyw wasanaethau penodi apwyntai, ac nad oedd yn gallu rheoli ei chyllid. Dechreuodd tîm Gwasanaeth Cwsmer y Cyngor wneud ymholiadau â'r CALDT. Ymatebodd y Cyngor ar 4 Awst yn dweud y mynegodd Ms D ei bod yn fodlon bod ei materion cyllid yn cael sylw priodol.

22. Ar 29 Ebrill, cynhaliodd CALDT asesiad integredig o anghenion Ms D. Dywedodd Ms D wrth y gweithiwr cymdeithasol ("yr Ail Weithiwr Cymdeithasol") bod Ms C wedi benthyg ychydig o gannoedd o bunnoedd o'i harian hi i Mr K ond nad oedd Ms K wedi'i ddychwelyd, ac y mynychodd Ms C ei chartref tra roedd hi allan a'i bod hefyd wedi cymryd arian. Nodwyd nad oedd Ms D yn dymuno cael apwyntai ond roedd ei dealltwriaeth o benodi apwyntai yn gyfyng. Nodwyd ei bod yn "achos risg uchel" am gamdriniaeth gyllidol, nad oedd ganddi ddealltwriaeth o'i budd-daliadau ac na fyddai'n gwybod beth i'w wneud pe na bai ei budd-daliadau cael eu talu i'w chyfrif. Nodwyd y gallai gyfrif a darllen arian, ond pan ofynnwyd i wneud ychydig o gyfrifon am newid, cafodd hwy'n anghywir. Roedd dealltwriaeth Ms D o dalu biliau yn gyfyng ac fe nodwyd, pe bai rhywun yn cymryd ei harian, ni fyddai'n gwybod beth i wneud ac efallai na fyddai'n sylweddoli y byddai wedi mynd. Dywedwyd hefyd wrth Ms D ei bod wedi gwario swm sylweddol mewn un mis ond na allai gyfrif amdano, ac nad oedd hi'n ymddangos yn gallu deall ei fod wedi mynd.

23. Ar 6 Mai, nododd yr Ail Weithiwr Cymdeithasol bod Ms D yn "hynod o fregus" ynghylch ei chyllid. Fodd bynnag, ychwanegodd yr Ail Weithiwr Cymdeithasol na theimlodd fod angen i'r Cyngor ymgeisio am benodi apwyntai oherwydd y gallai Ms D ddangos ychydig o ddealltwriaeth o'r hyn y dylid wneud a'i harian. Y cynllun oedd i roi cymorth i Ms D ar waith mewn perthynas â chyllid, talu biliau a siopa. Nododd yr Ail Weithiwr Cymdeithasol ei bod wedi derbyn cyfarwyddiadau ysgrifennedig gan Ms D yn gofyn i'r Cyngor beidio â trafod unrhywbeth â Ms C neu Mr K.

24. Cynhaliwyd ymweliad cartref ar 1 Mehefin gan yr Ail Weithiwr Cymdeithasol er mwyn cwbwlhau ffurflen VA1 (Atgyfeirio Addiffyn Oedolyn) mewn perthynas â'r cannoedd o bunnoedd a ddywedodd Ms D nad oedd Mr K wedi talu yn ôl â'r mwy na £1,000 o arian coll. Yn dilyn

cyfarfod strategol, penderfynwyd mai mater sifil oedd yr arian a ddywedodd Ms D nad oedd Mr K wedi talu'n ôl, ac y byddai'r swm sylweddol colledig yn cael ei ymchwilio'n bellach. Caewyd y mater ar 22 Medi heb gymryd unrhyw gamau pellach.

25. Ar 10 Mehefin, cwblhaodd yr Ail Weithiwr Cymdeithasol ei hasesiad integredig yn datgan ei hamharodrwydd i fynegi bod Ms D angen apwyntai ar hyn o bryd. Gyda chefnogaeth gyllidol a chyllideb briodol, efallai mai'r peryglon cyffredin o gamdriniaeth gyllidol y byddai Ms D yn wynebu'n unig.

26. Ar 11 Mehefin, gofynnodd yr Ail Weithiwr Cymdeithasol am gefnogaeth bellach gan Dîm Cefnogi pobl y Cyngor mewn perthynas ag anghenion cyllidebu Ms D. Y Cynllun oedd adolygu achos Ms D yn chwarterol ac ar ôl un flwyddyn, sefydlu os oedd angen apwyntai.

27. Ar 25 Mehefin, cysylltodd yr Ail Weithiwr Cymdeithasol y tîm cefnogi allanol yn ailadrodd y cais am gymorth ar gyfer Ms D gyda'i chyllid. Ychwanegodd mai arian oedd y mater mwyaf ac y byddai CALDT "efallai yn penodi apwyntai".

28. Ymwelodd yr Ail Weithiwr Cymdeithasol cartref Ms D yn Awst. Trafodwyd gwario cyffredinol Ms D a nodwyd ei bod wedi gwario llawer o arian mewn cyfnod byr o amser. Mynegodd Ms D ei mwynhad wrth brynnu dillad ac eitemau eraill o siop elusen leol.

29. O Awst i Ragfyr, dechreuodd Ms D i beidio cydymffurfio â'i gweithiwyr cymorth ac o ganlyniad, penderfynodd yr Ail Weithiwr Cymdeithasol ar 18 Rhagfyr i derfynnu gwasanaeth Cymorth Ms D. Tynnoddd yr Ail Weithiwr Cymdeithasol hefyd yn ôl o'i gwasanaethau oherwydd anghydffurfied Ms D.

**2016**

30. Yn dilyn cais gan Ms D am gefnogaeth, ymwelodd yr Ail Weithiwr Cymdeithasol â hi a cafodd atgyferiad am gymorth ei wneud ar 6 Ionawr. Eglurodd y ffurflen atgyfeirio bod Ms D yn parhau i angen cymorth am chyllideb a budd-daliadau a, er ei bod yn ymwybodol ei bod

ar fudd-daliadau, nid oedd yn deall eu hystyr. Ychwanegodd yr Ail Weithiwr Cymdeithasol fod dealltwriaeth Ms D o dalu biliau yn gyfyng a'i bod yn fregus i gamdriniaeth cyllidol. Rhoddodd enghraifft o Ms D yn camddeall y newid rheidiol pe bai'n talu â phapur £20. Ychwanegodd pe bai rhywun yn cymryd ei harian, ni fyddai'n gywbod beth i wneud neu efallai na fyddai'n sylweddoli ei fod wedi mynd.

31. Adferwyd y gwasanaethau cymorth a dechreuodd Ms D i gydymffurfio o Chwerfor. Fodd bynnag, erbyn Mehefin roedd wedi rhoi'r gorau i gydymffurfio a chafodd y gwasanaeth ei dynnu'n ôl eto.

32. Ar 24 Mehefin, ysgrifennodd Ms C i'r Cyngor gyda phryderon am unigrwydd Ms D. Cynigiodd dalu'r costau'r gwasanaeth Cymorthyydd teulu i gefnogi Ms D unwaith yr wythnos. Ni ymatebodd y Cyngor i'r llythyr hwn. Ysgrifennodd Ms C eto ar 4 Medi gyda chwyn swyddogol. Eglurodd bod filoedd o bunnoedd wedi diflannu o gyfrif banc Ms D a chyfeiriodd at berson gan ei enwi ("Cyfaill Cyntaf") a allai fod wedi bod yn cymryd arian gan Ms D. Dywedodd Ms C bod Mr K wedi cysylltu'r Heddlu ynghylch yr arian coll. Fodd bynnag, caeodd yr Heddlu'r achos yn ddiweddarach heb gymryd unrhyw gamau.

33. Ar 12 Medi, gofynnodd Uwch-Ymarferwr ("Yr Uwch-Ymarferwr Cyntaf") o fewn y Tîm Diogelu Oedolion i Weithiwr Cymdeithasol ymweld â Ms D I sefydlu gallu a chaniatâd ar gyfer y broses diogelu. Nododd yr Uwch-Ymarferwr Cyntaf ei bod wedi gofyn am hyn wythnos yn gynharach ond na dderbyniodd unrhyw ymateb, ac yr oedd bellach yn pryderu y gallai Ms D fod mewn perygl ychwanegol am wythnos arall, ar ôl honni bod miloedd o bunnoedd wedi ei chymryd oddi wrthi.

34. Ar 14 Medi, cysylltodd Uwch-Ymarferwr wahanol ("Yr Ail Uwch-Ymarferwr) o fewn y tîm Gwasanaethau Oedolion & Chymunedol â Ms D i drafod y materion a gododd Ms C. Dywedodd Ms D nad oedd hi wedi rhoi arian i unrhyw un a'i bod ond wedi adnabod y Cyfaill Cyntaf am gyfnod byr o amser. Nododd yr Ail Uwch-Ymarferwr nad oedd ganddi bryderon o ran gallu Ms D gan ei bod yn ymateb yn briodol ac yn deall yr hyn a ofynnwyd ohoni.

35. Yn Nhachwedd, dyrannwyd Gweithiwr Cymdeithasol newydd ("y Trydydd Weithiwr Cymdeithasol") i Ms D. Ymwelodd y Trydydd Weithiwr Cymdeithasol â Ms D gyda gweithiwr cymorth. Roedd Mr K yno gyda chyfaill teulu. Cadarnhaodd fod Ms C wedi cymryd rheolaeth gyllidol Ms D drosodd am y chwe wythnos diwethaf gan fod ei chyfrif wedi gostwng o swm pum ffigwr i bron sero. Cynlluniodd y Trydydd Weithiwr Cymdeithasol i ddychwelyd i ymgymryd ag asesiad. Cwblhaodd y Trydydd Weithiwr Cymdeithasol ffurflen atgyfeirio "Dyletswydd i hysbysu"[5] ac anfonwyd hwnnw i'r Tîm Diogelu.

36. Yn dilyn ymholiadau gan y Trydydd Weithiwr Cymdeithasol, daeth yn amlwg na gymerodd y Cyngor unrhyw gamau, yn 2013 neu ar ôl hynny, ynghylch penodi apwyntai. Dywedodd y Tîm Apwyntai, gan fod rhestr hir ar hyn o bryd ar gyfer eu gwasanaethau, y byddai angen edrych ar ffyrdd eraill o reoli cyllid Ms D ar gyfer y dyfodol agos.

37. Ymwelodd y Trydydd Weithiwr Cymdeithasol Ms D eto ar 2 Rhagfyr i drafod ei chyllid. Dywedodd Ms D nad oedd hi am i Mr K gael rheolaeth dros ei chyllid. Gwadodd Ms D rhoi ei harian i ffwrdd ac awgrymodd fod Ms C a Mr K wedi bod yn cymryd arian o'i chyfrifon. Ar ddiwedd yr ymweliad, nododd y Trydydd Weithiwr Cymdeithasol ei bod yn credu fod gan Ms D y gallu i reoli ei byw o ddydd i ddydd a'i materion cyllidol. Fodd bynnag, byddai angen ychydig o gymorth arni o hyd ynghylch ei chyllid.

38. Ar 12 Rhagfyr, ysgrifennodd Ms C i'r Trydydd Weithiwr Cymdeithasol a darparodd manylion o sut yr oedd wedi bod yn helpu Ms D yn gyllidol dros yr ychydig fisoedd diwethaf. Dangosodd Ms C fod biliau wedi mynd yn ddi-dâl a'I bod wedi dod o hyd i ffurflen gais ar gyfer cerdyn credyd. Dywedodd Ms C fod hyn yn dangos nad oedd gan Ms D y gallu i edrych ar ôl ei chyllid. Cydnabod y Trydydd Weithiwr Cymdeithasol y llythyr ar 14 Rhagfyr a dywedodd y bydd yn cysylltu maes o law. Dywedodd Ms C na glywodd ganddi eto.

39. Ar 19 Rhagfyr, cysylltodd Ms C â CALDT yn gofyn i gael siarad â'r Trydydd Weithiwr Cymdeithasol ar unwaith, gan fod Ms D wedi derbyn llythyr gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (AGP) yn awgrymu y byddai ei budd-daliadau yn dod i ben ar 3 Ionawr **2017.** Trafododd y trydydd Weithiwr Cymdeithasol hyn gyda'r AGP a Ms D.

---

[5] Hwn yw ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**2017**

40. Ar 9 a 14 Ionawr, ysgrifennodd Ms C i Uwch-Swyddogion y Cyngor. Yn y ddau lythyr, amlinellodd Ms C ei phryderon am Ms D a'r diffyg gweithredu gan y Cyngor o ran ei phenodi ag apwyntai a'r Heddlu ynghylch ei harian coll. Dywedodd Ms C na dderbyniodd ymateb i'r un o'r llythyrau hyn.

41. Ar 24 Ionawr, ymwelodd y Trydydd Weithiwr Cymdeithasol â Ms D yn ei chartref gydag eiriolwr Ms D. Nid oedd gwasanaethau cymorth wedi dechrau hyd yn hyn. Dywedodd Ms D wrth y Trydydd Weithiwr Cymdeithasol nad oedd hi am i Ms C rheoli ei chyllid bellach. Fodd bynnag, dywedodd Ms D ei bod am i Ms C dalu ei biliau. Nododd y Trydydd Weithiwr Cymdeithasol fod swm sylweddol o arian wedi'i dynnu o gyfrif banc Ms D rhwng Hydref 2015 a Hydref 2016. Dywedodd Ms D na thynnodd y nifer hwnnw o arian. Nododd y Trydydd Weithiwr Cymdeithasol nad oedd tystiolaeth yng nghartref Ms D ei bod wedi prynu eitemau drud ond ei fod yn orlawn iawn.

42. Dechreuodd y gwasanaethau cefnogi ar gyfer Ms D eto ar ddiwedd Ionawr. Fodd bynnag, anghydffurfiodd Ms D unwaith eto a therfynwyd y rhain ar 17 Chwefror.

43. Yn dilyn ymweliad gan swyddog AGP i gartref Ms D gyda phresenoldeb Ms C a Mr K, cafodd Mr K ei benodi fel apwyntai Ms D eto yn Ebrill.

44. Ar 4 Gorffennaf, cynhaliwyd cyfarfod strategol POVA (Amddiffyn oedolion agored i niwed) i drafod y ffurflen atgyfeirio a gyflwynodd y Trydydd Weithiwr Cymdeithasol ym mis Tachwedd 2016. Nodiwyd bod y Trydydd Weithiwr Cymdeithasol yn teimlo fod gan Ms D y gallu i reoli ei byw o ddydd i ddydd a'i materion cyllidol. I'r gwrthwyneb, nododd y Rheolwr Tîm Cyswllt Cyntaf yn y cyfarfod y byddai Ms D yn trafferthu i reoli ei chyllid, oherwydd ei hanabledd dysgu. Ar ddiwedd y cyfarfod, cytunwyd ar gynllun gofal a chymorth a oedd yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, yr angen am asesiad galluedd ffurfiol o ran materion cyllidol Ms D

## Tystiolaeth Ms C

45. Dywedodd Ms C na weithredodd timau Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor er lles orau Ms D. Dywedodd Ms C ei bod hi a Mr K wedi cyfleu eu pryderon ar nifer o achlysuron ond y cafodd eu hanwybyddu.

46. Dywedodd Ms C y cafodd ei harwain i gredu bod y Cyngor wedi ymgymryd â phenodi apwyntai pan nad oedd.

47. Dywedodd Ms C y gostyngodd gyfrif banc Ms D o swm pum ffigwr i bron sero rhwng Medi 2013 ac Awst 2016. Dywedodd Ms C bod yr arian hwn wedi cael ei roi i 'gyfeillion' honedig Ms D.

48. Dywedodd Ms C na gysylltodd y Cyngor â hi pan na chydymffurfiodd Ms D â'i gwasanaethau cymorth ac felly ni allai hi a'i theulu ei chynorthwyo.

## Tystiolaeth y Cyngor

49. Cafodd y Cyngor gyfarwyddiadau ysgrifenedig gan Ms D ym Mai 2015 yn gofyn iddynt beidio â thrafod unrhyw beth â Ms C neu Mr K. Ychwanegodd y Cyngor nad oedd gan Ms C na Mr K ill dau'r hawl i unrhyw wybodaeth mewn perthynas â Ms D, boed drwy gwynion ffurfiol neu unrhyw ffurf arall.

50. Dywedodd y Cyngor nad oedant wedi hysbysebu Mr K neu Ms C ar unrhyw amser fod y Cyngor yn apwyntai. Dengys eu cofnodion nad oedd penodi apwyntai yn ofynnol ar ôl i Mr K roi'r gorai i'w rôl ym Medi 2013.

51. Dywedodd y Cyngor na chymerodd y Trydydd Weithiwr Cymdeithasol asesiad galluedd ar 2 Rhagfyr oherwydd rhagdybiodd allu ar ran Ms D.

52. Honnodd y Cyngor nad oedd Ms C na Mr K, yn seiliedig ar wybodaeth a gadwodd Gwasanaethau Cymdeithasol, yn bobl addas i ddal y safle o apwyntai ac na fyddai eu penodiad yn cael ei gefnogi gan Wasanaethau Cymdeithasol.

53. Ar sail cynnwys y llythyrau a dderbyniasant gan Ms C a Mr K, credodd y Cyngor bod ymgais i danseilio gallu Ms D.

54. Dywedodd y Cyngor nad oedd yn ystyried cyfeiriad yr Ombwdsmon at adroddiad blaenorol fel meincnod posibl yn briodol, yn benodol am eu bod yn credu i'r ddau achos fod yn wahanol iawn ac nad oedd yn cynnig sail ar gyfer cymhariaeth.

## Cyngor Proffesiynol

55. Nododd y Cynghorwr; Pan roddodd Mr K y gorau i'w rôl fel apwyntai, cadarnhaodd y CALDT y byddai achos Ms C yn cael ei gyfeirio at y Tîm Apwyntai. Nododd hefyd, er mwyn i'r penodi apwyntai gael ei roi ar waith, dywedodd y Tîm apwyntai y byddant angen asesiad cofnodedig ffurfiol o alluedd. Dywedodd y Cynghorwr, wrth ystyried y pryderon a gododd y Gweithiwr Cymdeithasol Cyntaf yn ystod ei hymweliad at Ms D ar 14 Hydref 2013, y byddai cwblhau asesiad galluedd ar yr amser hwn wedi bod yn addas. Ychwanegodd y Cynghorwr bod y Cod Ymddygiad yn datgan bod angen galw asesiad galluedd pan mae 'ymddygiad neu amgylchiadau'r person yn achosi amheuaeth o ran a oes ganddynt y gallu i wneud penderfyniad'.[6] Dywedodd y Cynghorwr y byddai ymddygiad Ms D o ran ei dealltwriaeth gyfyngedig o'i chyllid a'i budd-daliadau ei hun, ar yr amser, wedi achosi amheuaeth resymol o ran ei gallu i wneud penderfyniadau cyllidol.

56. Ychwanegodd y Cynghorwr; ar y pwynt hwn, roedd hi'n ymddangos i'r Gweithiwr Cymdeithasol Cyntaf fod wedi ffurfio barn am allu Ms D ond nad oedd hyn yn gwbl amlwg o'r nodiadau am nad oes asesiad galluedd wedi'i gofnodi. Roedd yr asesiad o ran a all Ms D reoli ei chyllid ei hun yn un bwysig, yn benodol o ystyried yr hyn a oedd yn hysbys yn barod am ei bregusrwydd posibl.

[6] Adran 4, paragraff 4.35

57. Dywedodd y Cynghorwr, yn dilyn y Tîm Apwyntai yn gofyn am fwy o wybodaeth ar gyfer y ffurflen gyfeirio, ni chyfeiriwyd eto at yr asesiad galluedd a ni ddangoswyd unrhyw resymwaith ar nodiadau Ms D i egluro pam oedd hynny.

58. Nododd y Cynghorwr y cododd Ms D bryderon, rhwng Medi 2014 ac Ionawr 2015, bod pobl (gan gynnwys Ms C) yn benthyg arian, nad oedd ei budd-daliadau wedi'u talu a bod gŵr lleol yn gofyn iddi am arian. Dywedodd y Cynghorwr y buasai adolygiad o'r ffeil ar yr amser hwn wedi dangos na ddilynwyd y cynllun blaenorol i gyfeirio at y Tîm Apwyntai ac y gallai hyn ac y dylai hyn fod wedi'i ailymweld. Dylai hyn fod wedi cynnwys asesiad gallu wedyn oherwydd buasai'r wybodaeth ar gael wedi codi amheuaeth eto am allu Ms D i reoli ei chyllid a'i diogelu oddi wrth gamdriniaeth. Ychwanegodd y Cynghorwr bod egluro'r pryderon penodol yn hanfodol wrth benderfynu a oedd y rhain yn bodloni'r trothwy ar gyfer atgyfeirio mesurau diogelu.

59. Nododd y Cynghorwr yr asesiad integredig yn Ebrill 2015; fodd bynnag, dywedodd y Cynghorwr nad oedd yn glir, ar sail sylwadau'r Ail Weithiwr Cymdeithasol, boed wedi'i fwriadu fel asesiad galluedd. Ychwanegodd y Cynghorwr nad oedd wedi'i gorfodi fel y fath ac nad oedd yr Ail Weithiwr Cymdeithasol wedi delio na dadansoddi'r dystiolaeth bresennol i gefnogi ei barn fod Ms D â gallu. Casglodd y Cynghorwr y dangosodd y pryderon, mewn perthynas ag analluedd Ms S i egluro sut yr oedd swm sylweddol o arian wedi'i dynnu o'i chyfrif a'i hanalluedd i gyfri newid yn gywir, bod angen asesiad gallu ar yr amser hwn.

60. Dywedodd y Cynghorwr, roedd hi'n ymddangos bod y Trydydd Gweithiwr Cymdeithasol wedi cynnal asesiad gallu ar 2 Rhagfyr. Casglodd fod gan Ms D y gallu i reoli ei materion cyllidol. Dywedodd y Cynghorwr nad oedd hyn wedi ei gofnodi'n lawn ac nad oedd y rhesymwaith i gyrraedd y casgliad hwn yn glir.

61. Nododd y Cynghorwr y cyfarfod POVA ar 4 Gorffennaf a dywedodd bod y sylwadau o fewn y cyfarfod yn ymddangos i gyferbynnu. Dywedodd y Cynghorwr bod y cynllun gofal a chefnogaeth yn dangos mai safbwynt y Cyngor yn y cyfarfod oedd bod amheuaeth resymol am allu Ms D. Fodd bynnag, dywedodd y Cynghorwr nad oedd unrhyw beth wedi newid yn ei sefyllfa a bod y materion a godwyd yn ystod y cyfarfod wedi'u cydnabod yn flaenorol. Awgrymodd y Cynghorwr, os oedd y Cyngor wedi penderfynu bod Ms D yn debygol o beidio â chael y gallu, dylai hyn fod wedi'i asesu yn flaenorol.

62. Dywedodd y Cynghorwr nad oedd ganddi unrhyw bryderon am Ms D yn bod heb Weithiwr Cymdeithasol penodedig ar wahanol adegau. Gallai Ms D ofyn am gymorth pe bai angen ac roedd cymydog penodedig a allai godi pryderon. Dywedodd y Cynghorwr y cydymffurfiodd Ms D â chefnogaeth a gallai staff cefnogi gysylltu â'r Cyngor pe bai unrhyw bryderon. Casglodd y Cynghorwr fod y trefniadau i'w hachos gael ei reoli, ar adegau, drwy'r system dyletswydd, yn dderbyniol.

63. Caglodd y Cynghorwr, pe bai penodi apwyntai wedi'i ganlyn yn llwyddiannus, byddai hyn wedi golygu y buasai'r Cyngor wedi cadw rheolaeth o gyllid Ms D hyd yn oed yn ystod y cyfnodau pam na chydymffurfiodd â gwasanaethau eraill. Buasai hyn wedi golygu ei bod yn cael ei diogelu'n gyllidol hyd yn oed pan ddewisodd i beidio cydymffurfio â chefnogaeth arall

## Dadansoddiad a Chasgliadau

64. Wrth gyrradd fy nghasliadau, rwyf wedi ystyried y gyngor defnyddio yr wyf wedi aminellu mewn manylder uchod ac yr wyf yn derbyn yn llawn.

65. Rwy'n cytuno â fy Nghynghorwr na ddilynodd y Cyngor atgyfeiriad Ms D yn ddigonol yn Nhachwedd 2013 at eu Tîm Apwyntio pan roddodd Mr K y gorau i'w rôl fel Apwyntai. Nid oes rhesymwaith manwl o ran pam ddigwyddodd hyn na pham na chafodd asesiad galluedd ei gynnal pan awgrymwyd ei fod yn hanfodol. Mae'n rhoi yr argraff y cafodd ei anwybyddu. Nid oes cofnod o uwch-rheolaeth yn goruchwylio ar yr adeg hon. Mae hyn yn bryderus oherwydd nid yn unig y gadawodd hyn i Ms ddelio â'i chyllid ei hun, ond mae hefyd yn awgrymu na roddwyd

ystyriaeth ddifrifol i fregrusrwydd hysbys Ms D, a phryderon ei bod wedi ei hecsbloetio’n gyllidol yn y gorffennol.

66. Rwy’n bryderus iawn na gynhaliodd y Cyngor asesiad galluedd ffurfiol ar unrhyw bwynt o Fedi 2013 o ran materion cyllidol Ms D. Rwy’n adnabod fod gallu i’w rhagdybio, ond eto, ni newidiodd sefyllfa Ms D rhwng y dyddiad hwn a’r cyfarfod POVA yng Ngorffennaf 2017 pan benderfynodd fod asesiad galluedd ffurfiol yn hanfodol. Yn ystod yr amser hwn, cofnododd dri Gweithiwr Cymdeithasol ar bum achlysur wahanol fod Ms D nid yn unig yn fregus ond hefyd yn cael trafferth wrth egluro pa fudd-daliadau yr oedd hi’n derbyn, sut cafodd ei harian ei wario a gweithio allan cyfrifiadau arian sylfaenol. Ar bob un achlysur, dylid fod wedi ystyried asesiad gallu, o leiaf. Ar bob achlysur, ni ddigwyddodd hyn.

67. Adnabyddodd fy Nghynghorwr ddau achlysur penodol pryd y gallai asesiad galluedd fod wedi’i gynnal, ond ni allai hi fod yn sicr wrth edrych ar y cofnodion a oedd hyn wedi’i wneud. Fel y dywedais uchod, mae gallu i’w rhagdybio oni bai y gellir sefydlu nad oes gan y person allu. Rwyf o’r farn, ar ôl darllen nodiadau achos Ms D o Dachwedd 2013 a Rhagfyr 2016, bod tystiolaeth anddigonol, ar bob achlysur, i sefydlu fod gan Ms D allu a ni roddwyd unrhyw resymwaith manwl i egluro’r penderfyniadau. Yn benodol, ysgrifennodd y Gweithiwr Cymdeithasol Cyntaf i’r AGP yn 2013 gan ddweud nad oedd gan Ms D y gallu i reoli ei materion cyllid, ond eto, ni chymerodd gamau pellach na chodi’r mater.

68. Mae’r methiannau hyn yn ddifrifol ac yn awgrymu nad oedd staff y Cyngor o fewn y CALDT yn ddigon ymwybodol o ofyniadau’r DGM a’r Cod Ymddygiad. Gadawodd Ms D mewn modd damweiniol, i reoli ei chyllid ei hun a arweiniodd ati’n gostwng cyfrif ei banc o filoedd o bunnoedd dros gyfnod hir o amser. Rwy’n cydnabod fod Ms D, yn ystod y cyfnod hwn, yn derbyn cefnogaeth ac mai bwriad y Cyngor oedd i staff cefnogol cynorthwyo Ms D â’i materion cyllidol. Rwyf o’r farn na ddigwyddodd hyn. Roedd Ms D ar adegau wedi’i gadael ar ben ei hun i reoli pan beidiodd hithau â chydymffurfio dro ar ôl tro gyda staff cefnogi a Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd hyn er y codwyd pryderon ynghylch gwrywod lleol yn gofyn iddi am arian a chyhuddo Ms C a Mr K o gymryd, a gwrthod dychwelyd, swm mawr o’i harian. Roedd hyn yn annerbyniol. Cytunaf â’m Nghynghorwr, pe bai penodi apwyntai wedi ei

ddilyn ar ôl i Mr K roi gorau i'w rôl, byddai'r Cyngor wedi cadw rheolaeth o gyllid Ms D, yn arbennig yn ystod y cyfnodau pan ddewisodd i beidio cydymffurfio â staff cefnogi. Byddai, a dylai Ms D, fod wedi derbyn mesurau diogelu cyllidol gan y Cyngor, ac mae'n anghyfiawnder arwyddocaol na chafodd.

69. Mae yna hefyd y mater o fregusrwydd Ms D ac ecsbloetiaeth posibl rhwng Medi 2014 ac Ionawr 2015. Dywedodd fy Nghynghorwr nad oedd y pryderon a godwyd ar yr amser hwn wedi'u hymchwilio'n ddigonol na'u canlyn gan y Cyngor. Cytunaf fod y cyfnod yn arwyddocaol yn nhermau'r cyhuddiadau a gododd Ms D a'r pryderon a gododd yn uniongyrchol i'r CALDT. Mae'n annerbyniol y methodd y Cyngor i gymryd unrhyw gamau ystyriol nag ystyried os oedd atgyfeirio mesurau diogelu yn briodol. Dengys nodiadau achos Ms D na ystyriodd y staff y cyhuddiadau hyn yn ddigon difrifol na'u hymestyn i uwch staff am drafodaeth bellach. Ni roddodd resymwaith manwl o ran pam na chyfeiriodd y materion hyn, pam na gwblhaodd ffurflen VA1 a pham na fodlonodd y trothwy ar gyfer atgyfeirio mesurau diogelu. Gadawodd y Cyngor, unwaith eto, Ms D ar ben ei hun pan ellir fod eisiau eu cymorth. Rwyf o'r farn fod hyn yn cynrychioli methiant difrifol. O ganlyniad i'r methiant hwn, gadawyd Ms D mewn perygl i ecsbloetiaeth am gyfnod sylweddol o amser.

70. Rwyf mewn cytundeb â fy Nghynghorwr bod y cymorth cyffredinol a chynigiodd y Cyngor i Ms D yn ystod yr holl gyfnod yn addas. Mae hynny'n cynnwys pan benododd weithiwr Cymorth a hefyd phan nad oedd gan Ms D un. Er tuedd Ms D i beidio â chydymffurfio â'i gwasanaethau cefnogi, ail-ddechreuodd yn sydyn pan ofynnodd am gymorth.

71. Mewn perthynas ag anghyfiawnder, mae Ms C a Mr K wedi darparu copïau o gyfriflen Ms D er mwyn egluro'r nifer a wariodd. Nid yw'n bosib dweud ag unrhyw bendantrwydd ar beth y gwariodd Ms D ei harian, ac a oedd wedi cael ei gorfodi i roi arian i ffwrdd. Eto, fel y nodir uchod, methodd y cyngor i sicrhau mesurau diogelu cyllidol i Ms D. Felly, byddwn yn gwneud argymell cyllidol o blaid Ms D.

72. Mewn crynodeb, rwy'n **cadarnhau'r** gŵyn mewn perthynas ag arolygiaeth a rheolaeth o faterion cyllidol Ms D. **Nid wyf yn cadarnhau'r** gŵyn y gadawyd Ms D heb gymorth.

73. Yn olaf, er nad yw gohebiaeth Ms C a Mr K gyda'r Cyngor yn rhan o gwmpas fy ymchwiliad (paragraff 1), anghytunaf â'r Cyngor bod y llythyrau o bryderon a chwyno a gyflwynodd y ddau yn ymgeision i danseilio gallu Ms D. Yn gywir neu'n anghywir, tybiodd Ms C a Mr K am gyfnod fod y cyngor wedi cymryd drosodd penodi apwyntai a bod cyllid Ms D yn cael eu rheoli'n briodol. Yn fy marn i, roedd lles Ms D wrth wraidd eu pryderon, ac felly roedd hi'n annerbyniol y anwybyddodd y Cyngor eu gohebiaeth ar nifer o achlysuron a chamliwio eu cymhellion.

## Argymhellion

74. Rwy'n **argymhell** y dylai'r Cyngor:

O fewn **un** mis:

a) Ysgrifennu llythyrau o ymddiheuriadau gan y Prif Weithredwr i Ms C, Ms D a Mr K am y methiannau a adnabyddir yn yr adroddiad hwn

b) Gwneud taliad i Ms D o swm cytunedig am y methiant adnabyddedig o beidio asesu'n ddigonol ei hangen am fesurau diogelu cyllidol rhwng Medi 2013 ac Ebrill 2017.

c) Gwneud taliad o £500 i Ms C i gydnabod y gofid a achoswyd gan ei fethiant fel y amlinellwyd yn (b) ac anwybyddu ei gohebiaeth.

O fewn **tri** mis:

ch) Sicrhau bod trefniadau ar waith fel bod ystyriaeth yn cael ei roi i reoli cyllid yn ystod ei adolygiad blynyddol o achosion, a phenderfynu sut y byddant yn adolygu pryderon y dderbynant mewn perthynas â materion cyllidol a gallu.

d) Trafod cynnwys yr adroddiad hwn gyda'r CALDT i adnabod meysydd dysgu

dd) Sicrhau bod trefniadau ar waith fel bod staff penodol yn cael eu hatgoffa o'r angen i gymryd nodiadau cywir a thystio'r rhesymwaith ar gyfer penderfyniadau mewn perthynas â gallu.

O fewn **chwe** mis:

e) Arddangos bod holl Weithwyr Cymdeithasol perthnasol wedi un ai sefyll neu am sefyll hyfforddiant gloywi mewn perthynas â DGM a sut i ymgymryd ag a chofnodi asesiadau galluedd.

75. Rwy'n falch o nodi bod Cyngor Dinas Casnewydd wrth gyflwyno sylwadau ar fersiwn drafft yr adroddiad hwn wedi cytuno i weithredu'r argymhellion hyn.



**Nick Bennett** 17 Awst 2018
Ombwdsmon

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn: 01656 641150
Ffacs: 01656 641199
Ebost: holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk
Dilynwch ni ar Twitter@OmbudsmanWales